

IEPAW

Aseyydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Chwefror 2023

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir
(Dirymu a Diwygio)

Cynnwys

Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru	Tudalen 3
Diben yr adroddiad	Tudalen 3
Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)	Tudalen 4
Galwad am dystiolaeth	Tudalen 5
Y farn gyffredinol ynglŷn â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir	Tudalen 6
Cymal machlud	Tudalen 8
Pwerau a roddir gan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir	Tudalen 13
Cynnal safonau amgylcheddol	Tudalen 15
Effeithiau ar y setliad datganoli	Tudalen 17
Casgliad	Tudalen 20
Argymhellion	Tudalen 21

Rôl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

1. Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn ystyried pryderon a grybwyllir gan y cyhoedd ynglŷn â'r modd mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cynghori Gweinidogion Cymru ynghylch a yw'r sylwadau a gyflwynir yn ddilys, gan wneud argymhellion ar gyfer unrhyw gamau gweithredu y gallai fod angen eu cymryd.
2. Mae'r mesurau interim yn anstatudol. Eu prif ddiben yw cynnig trosolwg o'r modd mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, gan ystyried materion systemig yn ymwneud â chyfraith o'r fath. Gall gweithrediad cyfraith amgylcheddol olygu ystyried:
 - a yw'r gyfraith yn addas i'r diben neu'n dal i fod yn berthnasol;
 - a yw'r wybodaeth neu'r deunydd esboniadol mewn perthynas â'r gyfraith yn hygyrch; neu
 - a yw gweithrediad ymarferol y gyfraith yn cael ei atal mewn unrhyw ffordd.
3. Nid yw cwmpas y mesurau interim yn cynnwys:
 - achosion o dorri cyfraith amgylcheddol;
 - meysydd yn ymwneud â pheidio â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; a
 - materion a grybwyllir ac yr ymdrinnir â nhw gan systemau neu brosesau cwyno o fath arall.
4. Nod y mesurau interim yw nodi achosion pan allai fod angen cymryd camau i gywiro materion gweithredu a fydd yn gwella canlyniadau amgylcheddol. Nod strategol y mesurau yw:
 - darparu gwasanaeth i'r cyhoedd lle bydd modd i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru;
 - cynghori Gweinidogion Cymru ynglŷn ag unrhyw gamau y gall fod angen eu cymryd;
 - cyfrannu at ddatblygu dull parhaol o lywodraethu'r amgylchedd yng Nghymru.

Diben yr adroddiad

5. Daeth nifer o bryderon gan randdeiliaid ynglŷn â [Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\)](#) i law Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Ym marn y rhanddeiliaid hyn, mae gan y Bil hwn, ar ei ffurf bresennol, y potensial i achosi problemau sylweddol mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

6. O gofio graddfa'r problemau posibl a grybwyllwyd gan randdeiliaid a'u heffaith ar ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru wedi penderfynu llunio adroddiad byr i Weinidogion Cymru yn ymwneud â'r pwnc hwn. Canolbwynt yr adroddiad hwn fydd yr effaith bosibl a gaiff y Bil ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru – er, bydd effaith gyffredinol y Bil yn ehangach o lawer na hyn, oherwydd bydd yn effeithio ar gasgliad eang o ddeddfwriaethau ledled y DU (sef mater sydd y tu hwnt i gwmpas yr Adroddiad hwn).

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

7. Ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, fe wnaeth Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 droi cyfraith bresennol yr UE yn gyfraith ddomestig y DU, a elwir yn 'gyfraith yr UE a ddargedwir'. Nod y broses hon oedd lleihau problemau, gan gynnal y fframwaith cyfreithiol a fodolai eisoes, a thrwy hynny leihau ansicrwydd i unigolion a busnesau. Yna, roedd Senedd y DU a'r Seneddau datganoledig yn rhydd i ddeddfu i ymwahanu oddi wrth y safonau cyfreithiol hyn dros amser.
8. Cyflwynwyd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) gerbron Senedd y DU ar 22 Medi 2022. Diben y Bil yw rhoi pŵer i Weinidogion ddirymu neu ddiwygio rhai mathau o gyfreithiau'r UE a ddargedwir¹ a chael gwared â'r statws sydd gan gyfreithiau o'r fath yn system gyfreithiol y DU ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, bydd y Bil yn gwneud y canlynol:
 - Diddymu neu gymhathu rhai o gyfreithiau'r UE a ddargedwir erbyn diwedd 2023;
 - Diddymu'r egwyddor goruchafiaeth sy'n perthyn i gyfraith yr UE;
 - Ei gwneud hi'n haws i lysoedd domestig ymadael â chyfraith achosion yr UE a ddargedwir;
 - Cynnig dull i lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ymyrryd mewn achosion yn ymwneud â chyfraith achosion;
 - Diddymu hawliau a rhwymedigaethau uniongyrchol effeithiol mewn perthynas â chyfraith yr UE erbyn diwedd 2023;
 - Diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE yng nghyfraith y DU erbyn diwedd 2023;
 - Sefydlu rheol blaenoriaeth newydd lle bydd yn ofynnol dehongli a chymhwyso deddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ddomestig;
 - Israddio statws cyfraith yr UE a ddargedwir fel y gellir ei diwygio'n haws;

¹ Sef is-ddeddfwriaethau sy'n tarddu o'r UE a deddfwriaethau uniongyrchol yr UE a ddargedwir – Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 1(1)

- Creu pwerau fel y gellir dirymu neu ddisodli, ailddatgan neu ddiweddarau a dileu neu ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn lleihau'r baich.²
9. Yn ôl dangoswrdd cyfraith yr UE a ddargedwir, ceir oddeutu 2,400 o ddarnau o ddeddfwriaeth o fewn cwrpas Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir – er, mae adroddiadau'n awgrymu y gallai'r ffigur gwirioneddol fod yn 4,000 a mwy.³ Mae hyn yn cynnwys oddeutu 570 o ddarnau o ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r amgylchedd, bwyd a materion gwledig.⁴ Ond mae'n werth nodi nad yw'r dangoswrdd yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir a wnaed gan Weinidogion Cymru, ac o'r herwydd gallai'r darlun hwn fod yn anghyflawn.⁵ Mae dangoswrdd cyfraith yr UE a ddargedwir yn gyfyngedig o ran pennu'n fanwl gywir yr holl ddeddfwriaethau y bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn effeithio arnynt. Ychwaith, nid yw'r dangoswrdd yn nodi pa ddeddfwriaethau a gaiff eu cadw, pa ddeddfwriaethau a gaiff eu datganoli na pha ddeddfwriaethau y bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn berchen arnynt ar y cyd.

Galwad am dystiolaeth

10. Er mwyn llywio'r adroddiad hwn, ceisiodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru dystiolaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid a chanddynt arbenigedd mewn cyfraith amgylcheddol. Yn arbennig, gofynnodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru am farn a thystiolaeth yn ymwneud â'r materion canlynol:
- Pa effaith mae'r Bil yn debygol o'i chael ar y modd y bydd cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru?
 - Pa bryderon, os o gwbl, sydd gan y rhanddeiliaid ynglŷn â diogelu'r amgylchedd yng Nghymru pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu?
 - A ellir cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i ddrafft presennol y Bil fel y gellir ymdrin ag unrhyw rai o'r pryderon uchod mewn perthynas â Chymru? Os felly, sut fath o ddiwygiadau?

² Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, *Explanatory note for the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill*, (Bill 156 EN 2022-23) <

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0156/en/220156en.pdf> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

³ Peter Foster a George Parker, 'What is the UK's Retained EU Law Bill and why is it so controversial?', *Financial Times* (Llundain, 17 Ionawr 2023) <<https://www.ft.com/content/834ca974-440a-4c68-98eb-9fd79733fb3c>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

⁴ Gallai'r ffigur gwirioneddol fod yn fwy na hyn. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur wedi dweud eu bod o'r farn fod yna 300 o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth y dylid eu hychwanegu at y dangoswrdd. Yr Ymddiriedolaethau Natur, 'Briefing for Media' <<https://www.wildlifetrusts.org/sites/default/files/2022-10/Retained%20EU%20Law%20Bill%20-%20Briefing%20from%20The%20Wildlife%20Trusts.pdf>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

⁵ Ymchwil y Senedd, 'Retained EU (Revocation and Reform) Bill Research Briefing' (Tachwedd 2022) <https://senedd.cymru/media/z51fcg5x/22-67-cy-web.pdf> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

- Mae'r Bil yn cynnwys cymal machlud. Beth yw barn y rhanddeiliaid ynglŷn â'r cymal hwn? Sut y byddai'n berthnasol yng Nghymru?

11. Lansiodd yr alwad hon am dystiolaeth ar 6 Rhagfyr 2022 a daeth i ben ar 22 Rhagfyr 2022. Daeth 11 o ymatebion i law Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru gan y sefydliadau canlynol:

- AECow (Cymdeithas Clercod Gwaith Amgylcheddol)
- Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol
- Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)⁶
- NFU Cymru
- Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA)
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Coed Cadw (Woodland Trust)

Y farn gyffredinol ynglŷn â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir

12. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn gwrthwynebu Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

13. Er bod rhai rhanddeiliaid yn cydnabod y gellid esgor ar fanteision trwy adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn pennu lle y gellid cyflwyno gwelliannau, roedd y rhanddeiliaid yn cytuno nad y dull a gynigiwyd oedd y dull iawn ar gyfer mynd i'r afael ag adolygiad o'r fath. Er enghraifft, er bod NFU Cymru o'r farn bod yna gyfle i adolygu rheoliadau'n ymwneud â'r sector amaethyddol, dywedodd y sefydliad nad oedd yn dymuno gweld unrhyw reoliadau presennol yn cael eu bwrw heibio heb gynnal asesiad priodol, yn cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid ynghylch a ddylai'r rheoliadau gael eu cadw, eu diwygio neu eu dirymu, neu yn wir a fyddai'n synhwyrol paratoi rheoliadau neu ddull rheoleiddio hollol newydd.⁷

14. Roedd y rhai a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth yn cytuno y bydd ymateb i'r broses sydd ynghlwm wrth gyfraith yr UE a ddargedwir yn rhoi pwysau mawr ar ddeddfwyr Cymru. Er nad ydym eto yn gwybod gwir raddfa'r newidiadau y gellid eu cyflwyno i gyfraith amgylcheddol o ganlyniad i ddeddfu Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, roedd yr ymatebwyr yn rhagweld y byddai staff deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn gorfod treulio llawer iawn o amser yn ymateb i'r

⁶ Cyflwynodd y corff dystiolaeth ysgrifenedig ar 20 Ionawr 2023 ar ôl gofyn am ragor o amser

⁷ NFU Cymru, dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 9 Rhagfyr 2022

newidiadau hynny. Roedd y rhai a ymatebodd i'r alwad am farn yn cytuno y byddai hyn yn creu risg wirioneddol – sef y byddai Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cael ei thanseilio'n ddifrifol gan y byddai'n rhaid ailgyfeirio adnoddau ac ati i'r broses hon, ac na fyddai'r adnoddau hynny ar gael felly ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ei hun, yn cynnwys newid hinsawdd.

15. Ymhellach, mynegodd llawer o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â chynnal ei hasesiad ei hun o gyfraith yr UE a ddargedwir, yn cynnwys llunio'i barn ei hun ynglŷn â'r hyn y dylid ei ddatganoli a'i gadw.⁸ Yn hytrach, cyflwynodd y gweinyddiaethau datganoledig sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn iddi rannu ei dadansoddiad o'r rhanriad rhwng cyfreithiau'r UE a ddargedwir a gaiff eu datganoli a chyfreithiau'r UE a ddargedwir a gaiff eu cadw.⁹ Mynegodd y rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud digon i rannu dadansoddiadau o'r fath gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, gan arwain o bosibl at danseilio gallu'r gweinyddiaethau hynny i herio ac ymateb i newidiadau a wneir o dan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y byddai angen llawer iawn o adnoddau er mwyn i Lywodraeth Cymru allu cynnal ei hasesiad ei hun, ac na fyddai'n deg disgwyl i weinyddiaethau datganoledig fynd i'r afael â'r gwaith hwn yn gyfochrog â Llywodraeth y DU.¹⁰

16. Mater arall a grybwyllwyd gan nifer o'r ymatebwyr oedd yr ansicrwydd cyfreithiol y gallai'r Bil ei greu i fusnesau ledled y DU. Gallai newidiadau yn y fframwaith cyfreithiol presennol olygu treulio llawer o amser yn Llysoedd y DU yn ailbrofi cynseiliau – proses a allai gael ei chymhlethu ymhellach gan wahaniaethau yng nghyfraith gwahanol wledydd y DU. Hefyd, mae Cymal 7 o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn ei gwneud hi'n haws i Lysoedd domestig wyro oddi wrth gyfraith achosion yr UE a ddargedwir. O'r herwydd, hyd yn oed pe na bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei diwygio, mae'n bosibl y ceid ansicrwydd o ran gweithredu'r gyfraith oherwydd byddai'n aneglur a ddylid parhau i ddilyn cynseiliau presennol ai peidio.

⁸ Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 7 Rhagfyr 2022; Cyswilt Amgylchedd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 18 Tachwedd 2022

⁹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (4 Awst 2022) <<https://business.senedd.wales/documents/s129323/LJC6-23-22%20-%20Paper%2052%20-%20Letter%20from%20the%20Counsel%20General%20and%20Minister%20for%20the%20Constitution%204%20August.pdf>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

¹⁰ Y Gymdeithas Cadwraeth Forol, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 7 Rhagfyr 2022

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r canlynol:

- 1) pa brosesau a roddir ar waith ganddi i sicrhau y caiff effeithiau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru eu hystyried a'u rheoli'n briodol;
- 2) pa adnoddau sydd ar gael i reoli'r prosesau hyn.

Cymal machlud

17. Un o'r prif egwyddorion sy'n perthyn i Fil arfaethedig Cyfraith yr UE a Ddargedwir yw Cymal 1, sy'n cynnwys cymal machlud lle nodir y bydd rhai o gyfreithiau'r UE yn cael eu dirymu ar 31 Rhagfyr 2023, oni bydd awdurdod cenedlaethol perthnasol¹¹ yn penderfynu eu cadw o dan Gymal 1(2) trwy gyfrwng rheoliadau lle nodir y dylid cadw cyfraith yr UE a ddargedwir. Fel arall, gall awdurdod cenedlaethol perthnasol ddewis ailddatgan, disodli neu ddiweddarau cyfraith yr UE a ddargedwir o dan y pwerau a roddir gan Gymalau 12-17 o'r Bil drafft. Bydd unrhyw gyfraith yr UE a ddargedwir y tu hwnt i'r dyddiad hwn yn cael ei galw'n 'gyfraith a gymhathwyd'.¹²
18. Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth arbenigol a ddaeth i law'r Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn gwrthwynebu'r cymal machlud. Yn ôl y disgrifiad a ddefnyddiodd un ymatebydd, mae'r cymal machlud yn ordd ddeddfwriaethol, a dadleuodd bod y dull ymyl clogwyn a gaiff ei greu gan y cymal hwn yn gyfystyr â llunio cyfraith mewn modd anghyfrifol, ac nad oedd yn cyd-fynd â phroses gost-effeithiol, benodol, a ysgogir gan dystiolaeth.¹³
19. Mae'r holl dystiolaeth arbenigol a ddaeth i law Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cytuno bod y dyddiad machlud wedi'i bennu'n rhy gynnar ac nad yw'n rhoi digon o amser i ddeddfwyr roi ystyriaeth briodol i'r corff sylweddol o gyfreithiau'r UE a ddargedwir, yn enwedig os mai'r nod yw cyflwyno newidiadau sylweddol i'r fframwaith hwn. Yn arbennig, pe na bai Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 yn cael eu cadw ar eu ffurf bresennol, nododd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y byddai angen cryn amser i'w hadolygu a'u diwygio'n ddigonol yng ngwahanol rannau'r DU.¹⁴ Yn yr un modd,

¹¹ Mae cymal 21(1) o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd) yn diffinio 'awdurdod cenedlaethol perthnasol' fel (a) Gweinidog y Goron, (b) awdurdod datganoledig, (c) Gweinidog y Goron sy'n gweithredu ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau datganoledig

¹² Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 6

¹³ Cyswllt Amgylchedd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 22 Rhagfyr 2022

¹⁴ Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diwygio'r Amgylchedd Cymru, 21 Rhagfyr 2022

nodwyd nad yw'r cymal machlud yn rhoi digon o amser i awdurdodau gweithredu addasu i newidiadau deddfwriaethol er mwyn cyfleu'r newidiadau hynny i ddefnyddwyr a sicrhau bod defnyddwyr yn eu deall. Yn ôl CNC, ymddengys fod dadansoddiad Llywodraeth y DU o'r Bil hyd yn hyn wedi'i gyfyngu i newidiadau'n ymwneud â deddfwriaeth sylfaenol, ac na roddwyd llawer o ystyriaeth i effeithiau is-ddeddfwriaeth nac ychwaith i'r newidiadau y bydd angen eu cyflwyno i brosesau pan gaiff deddfwriaeth ei newid.¹⁵ O ganlyniad i hyn, mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith y gallai hyn ei chael ar weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru pe bai'r Bil yn cael ei ddeddfu.

20. Yn ôl CNC, mae deddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru yn eithriadol o gymhleth yn barod gan fod Cymru yn dal i weithredu o dan ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr mewn sawl maes. Nododd CNC y gwnaed ymdrech i gyfundrefnu a symleiddio'r ddeddfwriaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf – rhywbeth a gaiff ei groesawu. Ond roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y Bil yn debygol o roi stop ar y broses honno, ac y gallai hefyd ddwysáu'r broblem.¹⁶
21. Cytunwyd hefyd fod defnyddio cymal machlud yn amhriodol, ac y byddai'n well rhoi dull mwy ystyriol ar waith o ran adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir, gan sicrhau y ceid digon o amser i ymgynghori'n briodol ynglŷn â'r newidiadau, a chraffu arnynt. Nododd yr ymatebwyr fod yna risg sylweddol y gellid dirymu deddfwriaeth bwysig yn awtomatig trwy amryfusedd gan na sylwyd arni mewn pryd. Mae'r dystiolaeth ym mharagraff 9 uchod yn ategu hyn.
22. Yn unol â'r dystiolaeth arbenigol a ddaeth i law, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru o'r farn nad yw'r terfyn amser a bennwyd, sef 31 Rhagfyr 2023, yn rhoi digon o amser i asesu'r gyfraith yn briodol, ac nad yw ychwaith yn rhoi digon o amser i gyflwyno deddfwriaeth amgen. Fel y nodir uchod, mae yna oddeutu 570 o ddarnau o gyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â'r amgylchedd, bwyd a materion gwledig. Mae'r rhain yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion pwysig, yn cynnwys ansawdd dŵr, ansawdd aer a diogelu cynefinoedd. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd CNC pa mor gymhleth yw mynd i'r afael â'r gwaith hwn, a dywedodd y bydd hi'n anodd datrys deddfwriaeth mor gydgysylltiedig mewn modd eglur a dealladwy. Bydd hyn yn rhoi pwysau mawr ar lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, a cheir risg wirioneddol y bydd camgymeriadau'n cael eu gwneud os caiff y gwaith hwn ei gwblhau o fewn amserlen mor fyr. Fel y nododd yr ymatebwyr, mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth bwysig yn cael ei cholli, gan arwain at ddirymu'r ddeddfwriaeth honno; neu mae'n bosibl y bydd deddfwriaeth bresennol yn cael ei disodli gan ddeddfwriaeth y brysiwyd i'w llunio, heb roi ystyriaeth briodol i'w heffeithiau.

¹⁵ CNC, dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 20 Ionawr 2023

¹⁶ CNC, dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 20 Ionawr 2023

23. Fel y nododd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn y dystiolaeth a gyflwynodd i Bwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), yn hytrach na defnyddio cymal machlud byddai'n well pe bai modd galluogi llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i wneud dewisiadau cadarnhaol i ddiwygio meysydd penodol yn ymwneud â chyfraith yr UE a ddargedwir, pan fônt o'r farn fod yna le i wella.¹⁷ Trwy wneud hyn, byddai modd adolygu deddfwriaeth mewn modd mwy ystyriol ar sail blaenoriaethau, tystiolaeth, ymgynghori a dadansoddi, heb y risgiau sy'n perthyn i'r cymal machlud. Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru o'r farn y byddai dull mwy teilwredig ar gyfer meysydd penodol yn esgor ar fanteision, o gofio y byddai hyn yn ymdrin â phryderon a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr yn yr alwad am dystiolaeth ynglŷn ag amserlen afrealistig y cymal machlud, ac o gofio y byddai'n rhoi amser i ddeddfwyr ystyried yn briodol ble yn union y gallai newidiadau yn y ddeddfwriaeth esgor ar ganlyniadau amgylcheddol gwell, yn ogystal â rhoi amser iddynt asesu effaith unrhyw newidiadau, gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid. Byddai hyn hefyd yn ategu gwaith Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, sy'n ystyried unrhyw faterion yn ymwneud â gweithredu cyfraith amgylcheddol ar sail pryderon a grybwyllir gan y cyhoedd a chan rhanddeiliaid, a allai olygu cyflwyno diwygiadau awgrymedig i gyfraith amgylcheddol bresennol Cymru.

24. Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau amser a bennir gan Gymal 1 yn fwy taer i lywodraethau datganoledig nag ydynt i Lywodraeth y DU, oherwydd mae'r gweinyddiaethau hyn mewn perygl o gael eu rhoi mewn sefyllfa lle bydd yn rhaid iddynt ymateb i newidiadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU, o bosibl heb ryw lawer o ragwybodaeth na sicrwydd ynglŷn â beth yw'r newidiadau hynny na beth maent yn ei olygu. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, crybwyllodd nifer o rhanddeiliaid bryderon ynglŷn â'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud digon i dynnu sylw'r gweinyddiaethau datganoledig at y newidiadau a ystyrir mewn perthynas â chyfraith yr UE a ddargedwir. Erbyn i'r gweinyddiaethau hyn gael ymdeimlad llawn o'r newidiadau y bwriada Llywodraeth y DU eu cynnig, yn ôl pob tebyg bydd terfyn amser y cymal machlud ar ddigwydd, ac felly ni fydd digon o amser ar ôl i roi ystyriaeth lawn i effeithiau'r cyfryw newidiadau.

25. Mae Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn darparu ar gyfer ymestyn y dyddiad machlud. Fodd bynnag, dim ond un o Weinidogion y Goron a all gyflwyno estyniad o'r fath – ni all gweinyddiaethau datganoledig ei gyflwyno. Hefyd, ni all unrhyw estyniad fynd y tu hwnt i 23 Mehefin 2026 (sef deg mlynedd ar ôl cynnal y refferendwm Brexit).¹⁸ Nododd nifer o rhanddeiliaid fod hon yn sefyllfa afreolaidd, yn enwedig o gofio bod y gweinyddiaethau datganoledig yn meddu ar y pŵer i

¹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (22 Tachwedd 2022) <<https://www.theoep.org.uk/report/oep-submission-retained-eu-law-bill-committee>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023.

¹⁸ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 2

gadw cyfraith yr UE a ddargedwir am byth o dan Gymal 1(2). Roedd y rhanddeiliaid arbenigol yn cytuno y dylai'r gweinyddiaethau datganoledig hwythau gael y pŵer i ymestyn y dyddiad machlud.¹⁹ Ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cytuno â'r cynnig hwn.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i gael gwared â'r cymal machlud mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, neu roi'r pŵer i lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ymestyn y terfyn amser eu hunain. Fel gofyniad sylfaenol, dylid annog Llywodraeth y DU i ymestyn y dyddiad machlud er mwyn rhoi digon o amser i asesu cyfreithiau'r UE a ddargedwir ac er mwyn i lywodraethau mewn gwahanol rannau o'r DU allu ystyried yn llwyr pa ddeddfwriaethau newydd y gellid eu cyflwyno i wella canlyniadau amgylcheddol.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi'n ddi-oed restr gynhwysfawr o'r holl ddeddfwriaethau ledled y gweinyddiaethau datganoledig y bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn effeithio arnynt, ynghyd â chyflwyno'n ddi-oed ddadansoddiad llawn o'r deddfwriaethau y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Yn dilyn hyn, rhaid rhoi digon o amser i'r partïon a'r rhanddeiliaid o dan sylw roi ystyriaeth lawn i effaith y Bil cyn iddo gael ei basio.

26. Un ateb posibl i rai o'r problemau hyn ynglŷn â'r cymal machlud yw gofyn i Lywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ddeddfu i gadw cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir, sydd o fewn cwmpas ei chymhwysedd datganoledig, yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnal y sefyllfa bresennol yng Nghymru, o leiaf mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llwyr, gan roi digon o amser i lunwyr polisïau ystyried y fframwaith cyfreithiol a phennu ble gellir cyflwyno gwelliannau.

27. Mewn gwybodaeth ymchwil a gyhoeddwyd gan y Senedd, nodir y byddai Cymal 1(2) o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn galluogi Gweinidogion Cymru i gadw cyfraith yr UE a ddargedwir *en bloc* trwy gyfrwng un set o reoliadau lle rhestrir cannoedd o ddarnau o gyfreithiau'r UE a ddargedwir – hynny yw, darnau o gyfreithiau y dymunir eu cadw. Byddai'r rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn negyddol, gan roi 40 diwrnod i'r Senedd eu gwrthwynebu a'u dirymu. Yna, byddai Gweinidogion Cymru â'r pŵer i ailddatgan a/neu ddiweddarau'r cyfryw gyfreithiau a gymhathwyd hyd at 23 Mehefin 2026.²⁰²¹ Ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n bosibl y byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol i'r gyfraith hon a

¹⁹ Cyswllt Amgylchedd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 22 Rhagfyr 2022; NFU Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 9 Rhagfyr 2022

²⁰ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 13

²¹ Ymchwil y Senedd, 'Retained EU (Revocation and Reform) Bill Research Briefing' (Tachwedd 2022) <https://senedd.cymru/media/z51fcg5x/22-67-cy-web.pdf> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

gymhathwyd gael eu gwneud trwy ddeddfwriaeth sylfaenol, ac fe allai hynny gymryd amser er mwyn sicrhau craffu priodol; pe bai'r newidiadau'n cael eu gwneud trwy is-ddeddfwriaeth, mae'n bosibl y byddai'r diffyg craffu yn cael ei feirniadu.

28. Fodd bynnag, mae'n werth nodi y byddai cyflwyno rheoliadau fel y rhai y cyfeirir atynt yn y paragraff blaenorol yn arwain at wahaniaeth sylweddol yng nghyfreithiau amgylcheddol gwahanol wledydd y DU. Byddai'n rhaid ystyried unrhyw wahaniaeth o'r fath yn ofalus mewn perthynas â'i effeithiau ar yr amgylchedd, gan roi ystyriaeth i'r effeithiau ar gyfryngau ac ecosystemau amgylcheddol ymhlith pethau eraill – sef pethau nad ydynt yn cadw at fusnesau, rheoleiddwyr na ffiniau gwleidyddol a gweinyddol.
29. Hefyd, fel y nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, yn ychwanegol at y risg o golli rheoliadau sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, mae yna risg sylweddol y gallai newidiadau sy'n gyfan gwbl o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU gael effaith ar fesurau diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am ganiatáu prosiectau ynni sy'n fwy na hyn a hyn o faint yng Nghymru (sef 500MW ar y tir a 350MW ar y môr). Pe bai'r rheolau sy'n llywodraethu asesiadau o effeithiau amgylcheddol a chyfrifoldebau Llywodraeth y DU i ddiogelu natur mewn maes o'r fath yn cael eu newid, gallai hynny gael effaith fawr ar amgylchedd naturiol Cymru.²²
30. Yn olaf, fel y nodir isod, mae yna risg y gallai unrhyw reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru wrthdaro â rheoliadau Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn meysydd â chymhwysedd cyffredin. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut byddai modd datrys gwrthdaro o'r fath, na pha gymhwysedd a fyddai'n cael y flaenoriaeth.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno rheoliadau sy'n anelu at gadw cyfreithiau'r UE a ddargedwir yng Nghymru. Ni ddylai'r rheoliadau hyn gynnwys unrhyw gymalau machlud. Dylai'r rheoliadau sicrhau bod modd i lunwyr polisïau ystyried yn llwyr ble gellir cyflwyno gwelliannau i fframwaith presennol ein cyfraith amgylcheddol. Mewn meysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir ymgynghoriad pellgyrhaeddol, clir ac amserol, a bod y rheoliadau drafft yn destun craffu seneddol llawn yn y Senedd.

²² Cyswllt Amgylchedd Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 22 Rhagfyr 2022

Pwerau a roddir gan Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir

31. Mae Cymalau 12-17 o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (fel y'i cyflwynwyd) yn rhoi pwerau eang i Weinidogion Llywodraeth y DU a Gweinidogion y Llywodraethau datganoledig ddiwygio a disodli deddfwriaethau cyfraith yr UE a ddargedwir trwy gyfrwng is-deddfwriaethau. Yn gyffredinol, mae'r pwerau a roddir gan y cymalau hyn fel a ganlyn:

- Mae **Cymalau 12 ac 13** yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cenedlaethol ailddatgan cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymhathwyd yn ôl eu trefn;
- Mae **Cymal 15** yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cenedlaethol ddirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir;
- Mae **Cymal 16** yn cyflwyno pŵer i ddiweddarau cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith a gymhathwyd fel y gellir ystyried newidiadau mewn technoleg neu ddatblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol;
- Mae **Cymal 17** yn cyflwyno pŵer i ddileu neu leihau'r baich.

32. Mynegodd y rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad bryderon yn ymwneud â chwmpas y pwerau hyn, gan ddadlau eu bod yn rhy gyffredinol ac nad oeddynt wedi'u diffinio'n ddigonol. Ychwaith, nid oedd yr ymatebwyr o blaid defnyddio is-ddeddfwriaeth i roi'r newidiadau hyn mewn grym, gan na chreffir ar ddeddfwriaeth o'r fath i'r un graddau ag y creffir ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Dadleuodd yr ymatebwyr fod cwmpas y pwerau hyn, ynghyd â'r craffu llai trylwyr, yn groes i egwyddorion da o ran llunio cyfreithiau a pholisïau.

33. Nododd sawl rhanddeiliad fod cwmpas Cymal 15 (y pŵer i ddirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir) yn arbennig o eang, gan beri i ambell un ei alw'n ddarpariaeth "gwnewch beth bynnag y mynnwch".²³ Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau eang iawn i awdurdodau cenedlaethol o ran dirymu neu ddisodli cyfraith yr UE a ddargedwir. O dan y cymal hwn, byddai modd disodli deddfwriaeth o'r fath gyda deddfwriaeth ddomestig sydd naill ai'n cynnwys y cyfryw ddarpariaeth y cred yr awdurdod cenedlaethol perthnasol ei bod yn briodol ar gyfer cyflawni'r un amcanion neu amcanion tebyg²⁴, neu'r cyfryw ddarpariaeth amgen y cred yr awdurdod cenedlaethol perthnasol ei bod yn briodol.²⁵ Nododd nifer o'r ymatebwyr fod natur oddrychol y term 'priodol', ynghyd â'r cysylltiad cyfyngedig ag amcanion

²³ The Hansard Society, 'Five problems with the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill' (24 Hydref 2022)

<https://assets.ctfassets.net/n4ncz0i02v4l/92Se5TjP16LbAeBIKGCQE/fe6a83322be99844cefd6d2bae363377/5_Problems_with_the_REUL_-_Revocation_and_Reform_-_Bill_-_Oct_2022.pdf?utm_source=https://www.hansardsociety.org.uk> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

²⁴ Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 15(3)

²⁵ Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 15(3)

y ddeddfwriaeth wreiddiol, yn creu'r potensial i ddisodli mesurau presennol ar gyfer diogelu'r amgylchedd â deddfwriaeth a chanddi nodau ac amcanion gwahanol iawn.

34. Ymhellach, mynegwyd pryderon ynglŷn â Chymal 16, sy'n rhoi pŵer i ddiweddarau cyfraith yr UE a ddargedwir fel y gellir ystyried newidiadau mewn technoleg neu ddatblygiadau mewn dealltwriaeth wyddonol. Nododd rhanddeiliaid nad yw'r termau hyn wedi'u diffinio'n ddigonol a'u bod yn arwain at y posibilrwydd o greu ansicrwydd cyfreithiol. Hefyd, yn wahanol i'r pwerau eraill a roddir gan y Bil, ni fydd y pŵer hwn yn dod i ben ar ôl dyddiad penodol a byddai'n parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol.
35. O gofio lle mor bwysig a roddir i'r fframwaith o fesurau ar gyfer diogelu'r amgylchedd yn y corff presennol o gyfreithiau'r UE a ddargedwir, ym marn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru rhaid arolygu unrhyw newidiadau a chraffu arnynt yn briodol. Nid yw cyflwyno pwerau eang, sy'n rhoi'r gallu i awdurdodau cenedlaethol gyflwyno newidiadau pellgyrhaeddol heb broses graffu ddigonol, yn gydnaws â dulliau da o lunio cyfreithiau a pholisïau, a'r perygl yw y gallai hynny danseilio'r fframwaith presennol o fesurau ar gyfer diogelu'r amgylchedd.
36. Yn arbennig, mae gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru bryderon mawr ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr ymatebwyr i'r alwad hon am dystiolaeth – sef pryderon yn ymwneud â'r ffaith y bydd unrhyw ddeddfwriaeth nas cedwir gan awdurdodau cenedlaethol yn cael ei 'diffodd' yn awtomatig. Pe bai hyn yn digwydd, ni fyddai'r cyfryw ddirymiad yn destun goruchwyliaeth seneddol o unrhyw fath oherwydd natur 'ymyl clogwyn' y cymal machlud. Fel y nodir gan Gymdeithas Hansard, i bob pwrpas mae hyn yn golygu na fyddai Senedd y DU yn cael mynegi ei barn o gwbl ynghylch a fyddai darn o gyfraith yr UE a ddargedwir yn cael ei ddiddymu – gweinidogion a fyddai'n gwbl gyfrifol am wneud y penderfyniad.²⁶ Byddai'r diffyg goruchwyllo hwn yn cynyddu'r risg y gellid cyflwyno newidiadau andwyol i ddeddfwriaeth amgylcheddol heb roi ystyriaeth briodol i'w heffaith, neu heb gydsyniad datganedig gan ddeddfwyr.
37. Mae'n werth nodi bod y DU yn un o lofnodwyr Confensiwn Aarhus, sef cytundeb sy'n sefydlu nifer o hawliau mewn perthynas â'r amgylchedd ar gyfer unigolion a sefydliadau'r gymdeithas sifil. Ymhlith yr hawliau hyn, nodir yr hawl i ddinasyddion gymryd rhan yn y dasg o baratoi rheoliadau neu reolau cyfreithiol rwymol eraill a

²⁶Cymdeithas Hansard, 'Five problems with the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill' (24 Hydref 2022)

<https://assets.ctfassets.net/n4ncz0i02v4l/92Se5TjP16LbAeBIKGCQE/fe6a83322be99844cefd6d2bae363377/5_Problems_with_the_REUL_-_Revocation_and_Reform_-_Bill_-_Oct_2022.pdf?utm_source=https://www.hansardsociety.org.uk> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

allai gael effaith fawr ar yr amgylchedd.²⁷ O'r herwydd, pe bai aelodau'r cyhoedd yn cael eu hamddifadu o gyfle i gyfrannu at newidiadau mewn cyfraith amgylcheddol trwy gyfrwng ymgynghoriad, gellid ystyried y byddai'r confensiwn wedi cael ei dorri.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r pwerau a roddir gan y Bil hwn yn rhy eang. Hefyd, dylai'r Bil gynnwys gofyniad i sicrhau bod deddfwriaethau a gyflwynir o dan y pwerau hyn yn destun craffu llawn yn eu priod seneddau ac yr ymgynghorir yn eang yn eu cylch yn gynnar yn y broses gyda rhanddeiliaid â buddiant.

Yn absenoldeb sicrwydd o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru a roddir o dan y pwerau hyn yn destun craffu trylwyr yn y Senedd ac yr ymgynghorir yn llwyr yn eu cylch, i'r graddau y bo hynny'n bosibl o fewn yr amserlenni a bennir gan y Bil.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu i gyflwyno newidiadau i'r Bil er mwyn atal deddfwriaeth amgylcheddol rhag cael ei dirymu'n awtomatig heb gymeradwyaeth ddatganedig Senedd y DU / Senedd Cymru. Yn yr un modd, ni ddylai unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth amgylcheddol gael ei ddirymu heb gynnal ymgynghoriad a heb asesu'r effaith yn llawn.

Cynnal safonau amgylcheddol

38. Yng ngoleuni penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cydnabod y ceir cyfle yn awr i ystyried a yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn dal i fod yn addas i'r diben a phan un a cheir cyfle i gyflwyno gwelliannau i fframwaith presennol ein cyfraith amgylcheddol er mwyn adlewyrchu'n well beth yw amgylchiadau'r DU a'r gwledydd sy'n rhan o'r deyrnas. Mewn egwyddor, nid yw Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn gwrthwynebu'r syniad o adolygu fframwaith cyfraith yr UE a ddargedwir yn y DU, cyn belled ag y bydd adolygiad o'r fath yn anelu at wella lefel y warchodaeth amgylcheddol neu, fan leiaf, yn anelu at sicrhau na fydd lefel y warchodaeth yn is na'r lefel a geir ar hyn o bryd.
39. Yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, mae Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cynnig y dylid cynnwys egwyddor 'dim atchwelyd' ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, gyda'r nod o sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau yn arwain at

²⁷ Erthygl 8 o'r Confensiwn ar Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol ("Confensiwn Aarhus") 2161 UNTS 447' (25AD) <<http://www.unece.org/env/pp/treatytext.html>> cyrchwyd ar 1 Chwefror

wanhau unrhyw warchodaeth amgylcheddol.²⁸ Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cefnogi'r cynnig hwn yn llwyr.

40. Fodd bynnag, dylid nodi bod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, ar ei ffurf bresennol, yn cynnwys darpariaeth sy'n atal unrhyw ddeddfwriaeth amgen rhag cynyddu'r baich rheoleiddio cyffredinol.²⁹ Mae'r Bil drafft yn diffinio 'baich' yn fras ac mae'n cynnwys y canlynol:

- cost ariannol;
- anhwylystod gweinyddol;
- rhwystr o ran masnach neu arloesi;
- rhwystr o ran effeithlonrwydd, cynhyrchiant neu broffidioldeb;
- sancsiwn (troseddol neu o fath arall) sy'n effeithio ar barhad unrhyw weithgarwch cyfreithiol.³⁰

41. Ym marn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, gallai'r ddarpariaeth hon fod yn rhwystr difrifol o ran cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n cynnig gwarchodaeth amgylcheddol uwch na'r lefel sy'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai gwarchodaeth amgylcheddol gryfach yn arwain bron yn sicr at 'feichiau' mwy i fusnesau ac unigolion, ond byddai'n rhaid cydbwysu beichiau o'r fath â'r manteision posibl y gallai'r cyfryw warchodaeth eu cyflawni. Trwy atal awdurdodau cenedlaethol rhag cyflwyno unrhyw feichiau rheoleiddio newydd, y perygl yw y byddai hynny'n creu 'nenfwd rheoleiddiol', gan atal yr arfer o godi safonau.

42. Mae'n werth nodi rhwymedigaethau'r DU o dan Erthygl 391 o Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU-UE. Mae'r erthygl hon yn nodi na ddylai'r DU na'r UE "...weaken or reduce, in a manner affecting trade or investment between the Parties, its environmental levels of protection or its climate level of protection below the levels that are in place at the end of the transition period".³¹

43. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod "some retained EU law in the scope of the [REUL Bill] sunset is required to continue to operate [the UK's] international

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a gyflwynwyd gerbron Pwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar gyfer Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (22 Tachwedd 2022) <<https://www.theoep.org.uk/report/oep-submission-retained-eu-law-bill-committee>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

²⁹ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd), cymal 15(5)

³⁰ Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (fel y'i cyflwynwyd) cymal 15(10)

³¹ Cytundeb masnach a chydweithredu rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewrop ar y naill law, a rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, ar y llaw arall (30 Rhagfyr 2020) TS Rhif 8/2021

<https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/982648/TS_8.2021_UK_EU_EAEC_Trade_and_Cooperation_Agreement.pdf> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

obligations, including the trade and co-operation agreement” ac mae wedi ymrwymo y bydd y Llywodraeth “as a priority, [will] take the necessary action to safeguard the substance of any retained EU law and legal effects required to operate international obligations within domestic law”.³²

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i dderbyn argymhelliad Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sef y dylid cynnwys egwyddor ‘dim atchwelyd’ mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Yn absenoldeb yr egwyddor hon ar lefel y DU, dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir na ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir oni bai y byddai'r newidiadau hynny'n diogelu mwy ar yr amgylchedd, neu fan leiaf yn diogelu'r amgylchedd i'r un graddau â'r lefel bresennol.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i ddiwygio geiriad y Bil fel na ellir dehongli bod yna rwystr i gynyddu beichiau rheoleiddio pan fo hynny'n angenrheidiol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell. Rhaid i unrhyw gynydd mewn beichiau rheoleiddio fod yn destun ymgynghoriad manwl a rhaid asesu'r effeithiau posibl yn llwyr.

Effeithiau ar y setliad datganoli

44. Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon ynglŷn â'r ffaith yr ymddengys fod y Bil yn galluogi Gweinidogion y Goron i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli yn ogystal â chyflwyno newidiadau heb geisio cydsyniad y Senedd – effaith a gaiff ei dwysáu ymhellach gan y ffaith fod yna amwysedd ynglŷn â pha ddeddfwriaeth sydd wedi'i datganoli a pha ddeddfwriaeth sydd wedi'i chadw. Mae'r posibilrwydd y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio'r Bil hwn i lechfeddiannu meysydd datganoledig wedi bod yn destun pryder i Lywodraeth Cymru, a dyna yn rhannol pam y gwrthodwyd cydsynio i'r Bil hwn.³³
45. Mae Atodlenni 2 a 3 o'r Bil yn pennu gofynion manwl mewn perthynas â chydsynio, ond nod yr atodlenni hyn yw sicrhau y bydd yr awdurdodau datganoledig yn ceisio cydsyniad gan Weinidogion y Goron cyn iddynt arfer eu cymhwysedd. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn rhoi rhwymedigaethau o'r fath ar weinidogion Llywodraeth y DU i geisio cydsyniad gan yr awdurdodau datganoledig cyn iddynt ailddatgan,

³² HC Deb (25 Hydref 2022). Cyf. 721, col. 189

³³ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) (3 Tachwedd 2022) <<https://senedd.cymru/media/1aemxqxy/lcm-ld15434-w.pdf>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

diwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd cymhwysedd datganoledig.³⁴

46. Mae ymatebion gan randdeiliaid arbenigol yn cytuno y dylai'r Bil fynnu bod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad gan y gweinyddiaethau datganoledig cyn ailddatgan, diwygio neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn unrhyw faes datganoledig. Awgrymir y dylid cytuno ar weithdrefn ffurfiol ar gyfer hyn, a rhoi gweithdrefn o'r fath ar waith. Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn cefnogi'r awgrym hwn.
47. O ran trefniadau gweithio rhwng gwahanol wledydd y DU, nododd CNC nad yw'r prosesau newydd ar gyfer cydweithio a datrys anghydfodau ers ymadael â'r UE wedi cael eu sefydlu na'u profi'n llwyr eto. Hefyd, nododd CNC fod materion yn ymwneud â chymhwysedd datganoledig wedi cael eu herio mewn sawl ymddangosiad yn y Goruchaf Lys, ac na fydd y broses o ddadansoddi cyfraith yr UE a ddargedwir yn debygol o newid y duedd hon.³⁵

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysu i gynnwys darpariaeth ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir lle nodir yn glir na all Llywodraeth y DU geisio ailddatgan, diwygio na diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol heb gael cydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu i greu proses a dull clir a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i'r pedair gwlad gydweithredu i ddadansoddi effeithiau'r Bil ar gyfraith amgylcheddol a chytuno ar dulliau ar gyfer meysydd lle mae dull cydlynol yn ofynnol neu'n fanteisiol. Dylid sefydlu'r broses hon / y dull hwn trwy roi statws cydradd i'r pedair gwlad, a dylai'r prosesau/dulliau gael eu hategu gan weithgorau testunol.

48. Mater arall sydd ag arwyddocâd arbennig i'r gweinyddiaethau datganoledig yw'r rhyngweithio rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.
49. Mae Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn ddeddf Senedd y DU a'i nod yw atal rhwystrau masnach o fewn y gwledydd sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Cyflawnir hyn yn rhannol trwy gyflwyno egwyddorion cydnabyddiaeth gilyddol a pheidio â gwahaniaethu rhwng nwyddau a gwasanaethau yn y DU.

³⁴ Dr Viviane Gravey a'r Athro Colin T Reid, 'Retained EU Law Bill and Devolution: reigniting tensions in post-Brexit intergovernmental relations' (*Brexit & Environment*, 10 Hydref 2022)

<<https://www.brexitenvironment.co.uk/2022/10/10/reul-bill-devolution/>> cyrchwyd ar 1 Chwefror 2023

³⁵ CNC, tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 20 Ionawr 2023

50. Ym marn Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â rhagor o waith i ddeall y rhyngweithio posibl rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.
51. Fel y gwelir mewn manau eraill, mae gan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 y potensial i gyflwyno cyfyngiadau sylweddol ar Lywodraeth Cymru o ran arfer cymwyseddau datganoledig.³⁶³⁷ Yn arbennig, gallai'r ddeddfwriaeth hon danseilio gallu'r gweinyddiaethau datganoledig i gyflwyno safonau rheoleiddio sy'n fwy caeth na'r safonau a geir mewn rhannau eraill o'r DU. Dim ond i nwyddau a gwasanaethau a fyddai wedi'u creu yng Nghymru y byddai safonau o'r fath yn berthnasol, ac ni ellid rhwystro nwyddau a gwasanaethau o rannau eraill o'r DU rhag dod i mewn i'r wlad, hyd yn oed pan na fyddent yn cydymffurfio â safonau Cymru, yn cynnwys rhai ag elfen amgylcheddol.
52. Pe bai un rhan o'r DU yn symud i gyfeiriad lle byddai safonau amgylcheddol yn cael eu dadreoleiddio, gallai hynny effeithio ar farchnad fewnol y DU yn ei chyfanrwydd. Er enghraifft, gallai safonau amgylcheddol is ar gyfer nwyddau a gwasanaethau sy'n tarddu o un rhan o'r DU danseilio safonau sy'n berthnasol mewn rhannau eraill o'r DU a ddewisodd gynnal y safonau ar eu lefel bresennol neu a ddewisodd gyflwyno gwarchodaeth uwch. Gallai newidiadau rheoleiddio o'r fath esgor ar niwed economaidd i'r rhannau hynny o'r DU, oherwydd byddai eu busnesau'n gorfod cystadlu â busnesau a fyddai'n gweithredu'n ôl safonau is. Yn ei dro, gallai hynny ddatgymell gwarchodaeth amgylcheddol uwch, gan arwain at 'ras tuag at y gwaelod' yn hanes safonau amgylcheddol.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r rhyngweithio rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran yr effeithiau posibl ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Hefyd, dylid ystyried pa fesurau a all fod ar gael i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n deillio o'r rhyngweithio hwn.

³⁶ Y Ganolfan Newid Cyfansoddiadol, 'UK Internal Market Bill Devolution and the Union' <<https://www.centreonconstitutionalchange.ac.uk/publications/uk-internal-market-devolution-and-union>> cyrchwyd ar 9 Chwefror 2023

³⁷ Michael Keating, 'Taking back control? Brexit and the territorial constitution of the United Kingdom' (2022) 29(4) JEPP < <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/13501763.2021.1876156>> cyrchwyd ar 9 Chwefror 2023

Casgliad

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn sgil yr alwad am dystiolaeth mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi esgor ar nifer o bryderon difrifol ynglŷn â'r effaith y byddai'r bil ei chael ar y modd mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu yng Nghymru, pe bai'n yn cael ei ddeddfu. Daw'r Adroddiad hwn i'r casgliad bod angen cymryd camau ar frys mewn perthynas â nifer o faterion er mwyn ymdrin â'r pryderon hynny.

Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r canlynol:

- 1) pa brosesau a roddir ar waith ganddi i sicrhau y caiff effeithiau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru eu hystyried a'u rheoli'n briodol;
- 2) pa adnoddau sydd ar gael i reoli'r prosesau hyn.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i gael gwared â'r cymal machlud mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, neu roi'r pŵer i lywodraethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ymestyn y terfyn amser eu hunain. Fel gofyniad sylfaenol, dylid annog Llywodraeth y DU i ymestyn y dyddiad machlud er mwyn rhoi digon o amser i asesu cyfreithiau'r UE a ddargedwir ac er mwyn i lywodraethau mewn gwahanol rannau o'r DU allu ystyried yn llwyr pa ddeddfwriaethau newydd y gellid eu cyflwyno i wella canlyniadau amgylcheddol

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i gyhoeddi'n ddi-oed restr gynhwysfawr o'r holl ddeddfwriaethau ledled y gweinyddiaethau datganoledig y bydd Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn effeithio arnynt, ynghyd â chyflwyno'n ddi-oed ddadansoddiad llawn o'r deddfwriaethau y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Yn dilyn hyn, rhaid rhoi digon o amser i'r partion a'r rhanddeiliaid o dan sylw roi ystyriaeth lawn i effaith y Bil cyn iddo gael ei basio.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno rheoliadau sy'n anelu at gadw cyfreithiau'r UE a ddargedwir yng Nghymru. Ni ddylai'r rheoliadau hyn gynnwys unrhyw gymalau machlud. Dylai'r rheoliadau sicrhau bod modd i lunwyr polisïau ystyried yn llwyr ble gellir cyflwyno gwelliannau i fframwaith presennol ein cyfraith amgylcheddol. Mewn meysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir ymgynghoriad pellgyrhaeddol, clir ac amserol, a bod y rheoliadau drafft yn destun craffu seneddol llawn yn y Senedd.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r pwerau a roddir gan y Bil hwn yn rhy eang. Hefyd, dylai'r Bil gynnwys gofyniad i sicrhau bod deddfwriaethau a gyflwynir o dan y pwerau hyn yn destun craffu llawn yn eu priod seneddau ac yr ymgynghorir yn eang yn eu cylch yn gynnar yn y broses gyda rhanddeiliaid â buddiant.

Yn absenoldeb sicrwydd o'r fath, dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru a roddir o dan y pwerau hyn yn destun craffu trylwyr yn y Senedd ac yr ymgynghorir yn llwyr yn eu cylch, i'r graddau y bo hynny'n bosibl o fewn yr amserlenni a bennir gan y Bil.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu i gyflwyno newidiadau i'r Bil er mwyn atal deddfwriaeth amgylcheddol rhag cael ei ddirymu'n awtomatig heb gymeradwyaeth ddatganedig Senedd y DU a/neu Senedd Cymru. Yn yr un modd, ni ddylai unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth amgylcheddol gael ei ddirymu heb gynnal ymgynghoriad a heb asesu'r effaith yn llawn.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i dderbyn argymhelliad Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sef y dylid cynnwys egwyddor 'dim atchwelyd' mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Yn absenoldeb yr egwyddor hon ar lefel y DU, dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad clir na ddylid cyflwyno unrhyw newidiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru o ganlyniad i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir oni bai y byddai'r newidiadau hynny'n diogelu mwy ar yr amgylchedd, neu fan leiaf yn diogelu'r amgylchedd i'r un graddau â'r lefel bresennol.

Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i ddiwygio geiriad y Bil fel na ellir dehongli bod yna rwystr i gynyddu beichiau rheoleiddio pan fo hynny'n angenrheidiol i sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell. Rhaid i unrhyw gynnydd mewn beichiau rheoleiddio fod yn destun ymgynghoriad manwl a rhaid asesu'r effeithiau posibl yn llwyr.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i bwysu i gynnwys darpariaeth ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir lle nodir yn glir na all Llywodraeth y DU geisio ailddatgan, diwygio na diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol heb gael cydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru bwysu i greu proses a dull clir a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i'r pedair gwlad gydweithredu i ddadansoddi effeithiau'r Bil ar gyfraith amgylcheddol a chytuno ar ddulliau ar gyfer meysydd lle mae dull cydlynol yn ofynnol neu'n fanteisiol. Dylid sefydlu'r broses hon / y dull hwn trwy roi statws cydradd i'r pedair gwlad, a dylai'r prosesau/dulliau gael eu hategu gan weithgorau testunol.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad brys o'r rhyngweithio rhwng Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran yr effeithiau posibl ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Hefyd, dylid ystyried pa fesurau a all fod ar gael i liniaru unrhyw effeithiau negyddol a fyddai'n deillio o'r rhyngweithio hwn.

